Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

**Teitl:** **Y diweddaraf am wasanaethau arennol**

**Dyddiad:** **28 Ebrill 2010**

**Gan:** **Edwina Hart, Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

Cytunais yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos diwethaf, yn dilyn cwestiynau ynghylch uned dialysis arfaethedig yng ngogledd Gwent, i gyflwyno datganiad ysgrifenedig i'r Aelodau ynghylch ehangu gwasanaethau dialysis arennol ledled Cymru.

Cafodd Rhwydwaith Clinigol a Reolir Arennol Cymru (y Rhwydwaith), sydd bellach yn gyfrifol am gynllunio a sicrhau gwasanaethau dialysis arennol, ei sefydlu'n ffurfiol o 1 Ebrill ymlaen fel is-bwyllgor i Bwyllgor Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Cymru. Mae'r Rhwydwaith yn bwrw ymlaen â'r rhaglen ehangu dialysis gyda chyllid ychwanegol o £9.3m rwyf wedi'i ddyrannu ar gyfer 2010-11.

Mae darparu cyfleusterau hemodialysis yn fater cymhleth sy'n gofyn am adnoddau sylweddol. Rhaid cynllunio a thargedu adnoddau'n ofalus er mwyn iddynt gyrraedd y meysydd blaenoriaeth y cytunir arnynt ledled Cymru. Yn yr ymarfer blaenoriaethu cyntaf a gynhaliwyd gan y ddau gyn rwydwaith rhanbarthol yn 2009, nodwyd nifer o safleoedd fel rhai â'r brif flaenoriaeth, gydag ail grŵp o ddatblygiadau'n cael blaenoriaeth is, i'w hystyried yng ngham dau ail gyfnod y rhaglen ehangu. Mae'r uned arfaethedig yng ngogledd Gwent yng ngategori cam dau.

Er nad yw'r gwaith wedi cychwyn i werthuso'r opsiynau'n ffurfiol a llunio achosion busnes ar gyfer cynlluniau cam dau ar gyfer cynlluniau cam dau, mae gwaith yn parhau i fireinio safbwynt y Rhwydwaith am yr anghenion a'r prosesau gorau er mwyn i'r Rhwydwaith ddarparu gwasanaethau yn y meysydd hyn. Yr haf hwn, mae'r Rhwydwaith yn bwriadu ailystyried y cynlluniau cam dau hyn, gan gynnwys cynllun gogledd Gwent, i gytuno ar y drefn flaenoriaeth ar gyfer eu datblygu.

Fel rhan o'r rhaglen ehangu dialysis, bu'r ddau gyn Rwydwaith Arennol yn ystyried defnyddio unedau dialysis arennol symudol. Daeth y Rhwydweithiau i'r casgliad bod nifer o risgiau ychwanegol yn codi yn sgil unedau symudol bach, fel gwallau mecanyddol a llai o gydnerthedd. Y farn oedd ei bod yn debygol y byddai unedau o'r fath yn ddrutach nag unedau sefydlog, felly efallai na fyddent yn cynnig gwerth am arian. Nodwyd na fyddai cerbydau mwy a allai oresgyn rhai o'r risgiau hyn, fel y rheini a ddefnyddir yng Ngogledd America, yn addas ar gyfer yr ardaloedd a fyddai'n elwa fwyaf, h.y. ardaloedd gwledig tenau eu poblogaeth, oherwydd y system ffyrdd.

Mewn ardaloedd diarffordd, lle ceir niferoedd bach o gleifion neu gleifion unigol, roedd y Rhwydweithiau o'r farn y byddai'n fwy priodol defnyddio dialysis yn y cartref a gwasanaethau cymorth cymunedol. Bydd y corff newydd Rhwydwaith Arennol Cymru yn adolygu datblygiad pellach gwasanaeth dialysis cartref a chymunedol fel rhan o'i gynllun gwaith ar gyfer 2010-11.

Cyn sefydlu cyfleusterau parhaol a lle nad oes unrhyw wasanaeth lleol yn bodoli ar hyn o bryd, mae'r Rhwydwaith Arennol wedi bod yn sefydlu unedau dialysis dros dro drwy ddefnyddio gofod cyfredol mewn cyfleuster GIG sydd wedi'i addasu neu unedau dialysis y gellir eu datgymalu, sef portacabin pwrpasol fel arfer. Dim ond peth defnydd y gellir ei wneud o gyfleusterau o'r fath ac mae angen eu hystyried yn ofalus; felly caiff hyn ei ystyried dim ond pan fydd achos dylunio a busnes yr uned barhaol wedi symud ymlaen yn dda.

Mae'r diweddaraf ynghylch pob cynllun sydd wedi'u nodi fel blaenoriaeth yn y tabl yn Atodiad 1.

Yn aml trawsblaniadau arennol yw'r driniaeth orau i bobl â chlefyd yr arennau, yn hytrach na dialysis. Mae'r gwaith terfynol yn cael ei wneud ar adeiladu canolfan drawsblaniadau arennol bwrpasol â 21 o welyau a chyfleuster cleifion arennol allanol newydd, sy'n werth £4.2 miliwn, yn Ysbyty Athrofal Cymru, Caerdydd. Rhagwelir y bydd yn agor ddiwedd mis Gorffennaf 2010. Bydd y ganolfan yn cynyddu'r adnoddau cyfredol ac yn gwella ansawdd bywyd cleifion arennol.

Atodiad 1 - Y diweddaraf ynghylch sefyllfa bresennol pob cyfleuster dialysis

| **Cyfleuster dialysis newydd** | **Statws** | **Y Sefyllfa Bresennol** |
|---|---|---|
| Ysbyty Cyffredinol Gorllewin Cymru, Caerfyrddin | Agorwyd mis Mawrth 2008 | |
| Pentwyn, Gogledd Caerdydd | Agorwyd mis Tachwedd 2008 | |
| Sir Benfro | Agorwyd cyfleuster dros dro yn Ysbyty Llwyn Helyg ym mis Rhagfyr 2008 | Yn amodol ar achos busnes boddhaol, bwriedir agor uned newydd (24 gorsaf) erbyn diwedd 2011 |
| Powys (Ysbyty Coffa y Trallwng) | Blaenoriaeth uchel | Rhagwelir y bydd uned dros dro yn weithredol erbyn mis Tachwedd 2010; Yn amodol ar achos busnes boddhaol, bwriedir agor uned newydd (12 gorsaf) ddechrau 2012 |
| Powys (Ysbyty Coffa Llandridnod) | Blaenoriaeth uchel | Mae'r Rhwydwaith Arennol am greu uned â phedair gorsaf mewn ward wedi'i hadnewyddu yn Ysbyty Coff Llandrindod  i'w hagor erbyn yr hydref 2010 |
| Meirionnydd/De Gwynedd (Ysbyty Alltwen, Tremadog) | Uned dros dro yn weithredol, gan ei hehangu ganol mis Mai 2010 | Yn amodol ar achos busnes boddhaol, bwriedir agor uned newydd (12 gorsaf) erbyn diwedd 2011 |
| Aberystwyth | Amnewid | Uned newydd (12-15 gorsaf) i gymryd lle'r uned bresennol (7 gorsaf), gyda chysylltiad ag uned ddatblygu Gofal Sylfaenol Meddygfa Padarn ddechrau 2011 |
| Merthyr | Amnewid | Uned newydd (24-27 gorsaf) i gymryd lle'r uned bresennol (15 gorsaf) erbyn mis Chwefror 2012 |
| Glannau Dyfrdwy | Y Rhwydwaith Arennol yn ystyried blaenoriaethu'r cynlluniau Cam 2 hyn yn Haf 2010 | Yn cael ei ystyried |
| Gogledd Gwent | | Gwerthusiad yn cael ei gynnal o'r opsiynau |
| Baglan / Pen-y-bont ar Ogwr | | Gwerthusiad yn cael ei gynnal o'r opsiynau |
| Bangor (Ailwampio) | | Yn cael ei ystyried |
| CRI, Caerdydd (Amnewid) | | Yn cael ei ystyried |